# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 2
06/04/20

# Swper Olaf a Chroeshoeliad Iesu

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.





# Stori 1

## Fersiwn Beibl.net

Ar ddiwrnod cyntaf Gŵyl y Bara Croyw (hynny ydy, y diwrnod pan oedd hi'n draddodiad i ladd oen y Pasg), gofynnodd disgyblion Iesu iddo, “Ble rwyt ti am fwyta swper y Pasg? – i ni fynd yno i'w baratoi.”
Felly anfonodd ddau o'i ddisgyblion i Jerwsalem, a dweud wrthyn nhw, “Wrth fynd i mewn i'r ddinas, bydd dyn yn dod i'ch cyfarfod yn cario llestr dŵr. Ewch ar ei ôl, a gofyn i berchennog y tŷ y bydd yn mynd iddo, ‘Mae'r athro eisiau gwybod ble mae'r ystafell westai iddo ddathlu'r Pasg gyda'i ddisgyblion?’ Bydd yn mynd â chi i ystafell fawr i fyny'r grisiau wedi'i pharatoi'n barod. Gwnewch swper i ni yno.”
Felly, i ffwrdd â'r disgyblion i'r ddinas, a digwyddodd popeth yn union fel roedd Iesu wedi dweud. Felly dyma nhw'n paratoi swper y Pasg yno.

Yn gynnar y noson honno aeth Iesu yno gyda'r deuddeg disgybl. Tra oedden nhw'n bwyta, dyma Iesu'n dweud, “Wir i chi, mae un ohonoch chi'n mynd i'm bradychu i. Un ohonoch chi sy'n bwyta gyda mi yma.”
Dyma nhw'n mynd yn drist iawn, a dweud un ar ôl y llall, “Dim fi ydy'r un, nage?”
“Un ohonoch chi'r deuddeg,” meddai Iesu, “Un ohonoch chi sy'n bwyta yma, ac yn trochi ei fara yn y ddysgl saws gyda mi. Rhaid i mi, Mab y Dyn, farw yn union fel mae'r ysgrifau sanctaidd yn dweud. Ond gwae'r un sy'n mynd i'm bradychu i! Byddai'n well arno petai erioed wedi cael ei eni!”

Tra oedden nhw'n bwyta dyma Iesu'n cymryd torth, ac yna, ar ôl adrodd y weddi o ddiolch, ei thorri a'i rhannu i'w ddisgyblion. “Cymerwch y bara yma” meddai, “Dyma fy nghorff i.”
Yna cododd y cwpan, adrodd y weddi o ddiolch eto a'i basio iddyn nhw, a dyma nhw i gyd yn yfed ohono. “Dyma fy ngwaed,” meddai, “sy'n selio ymrwymiad Duw i'w bobl. Mae'n cael ei dywallt ar ran llawer o bobl. Credwch chi fi, fydda i ddim yn yfed gwin eto, nes daw'r diwrnod hwnnw pan fydda i'n yfed o'r newydd pan fydd Duw yn teyrnasu.”
Wedyn ar ôl canu emyn, dyma nhw'n mynd allan i Fynydd yr Olewydd.

*Marc 14:12-26 Beibl.net*

## Fersiwn syml

Y diwrnod cyn Gŵyl y Pasg, gofynnodd ffrindiau Iesu iddo fo, 'Ble gawn ni fwyta ein swper arbennig?' Dywedodd Iesu wrthyn nhw am ystafell yn ninas Jerwsalem. Gyda'r nos, aeth Iesu a'i ddeuddeg ffrind yno a dyma nhw'n bwyta eu swper olaf gyda'i gilydd. Tra oedden nhw'n bwyta, dwedodd Iesu wrthyn nhw, 'Mae un ohonoch chi yn mynd i ddweud amdana i wrth y milwyr Rhufeinig.' Roedd pawb yn drist iawn i glywed hyn. 'Dim fi ydy o!' meddan nhw i gyd. Tra’r oedden nhw'n bwyta, dyma Iesu yn cymryd torth o fara, a dweud diolch i Dduw amdano, ac yna dyma fo'n torri a rhannu'r bara gyda'i ffrindiau. 'Hwn ydy fy nghorff i,' meddai. Yna cododd y cwpan gwin, a diolch i Dduw eto, a'i basio i'w ffrindiau. 'Hwn yw fy ngwaed i,' meddai Iesu, 'fy mywyd sy'n cael ei roi er mwyn i lawer iawn o bobl fod yn ffrindiau gyda Dduw.' Yna dyma pawb yn canu cân, ac aethon nhw allan i Fynydd yr Olewydd.



# Stori 2



**Fersiwn Beibl.net**

Roedd dyn o Cyrene o'r enw Simon yn digwydd mynd heibio (tad Alecsander a Rwffus) – roedd ar ei ffordd i mewn i'r ddinas. A dyma'r milwyr yn ei orfodi i gario croes Iesu. Dyma nhw'n dod â Iesu i Golgotha (sy'n golygu 'Lle y Benglog'), a dyma nhw'n cynnig gwin wedi'i gymysgu â chyffur iddo, ond gwrthododd ei gymryd. Ar ôl ei hoelio ar y groes dyma nhw'n gamblo i weld pwy fyddai'n cael ei ddillad.

Naw o'r gloch y bore oedd hi pan wnaethon nhw ei groeshoelio. Roedd arwydd ysgrifenedig yn dweud beth oedd y cyhuddiad yn ei erbyn. Y geiriau ar yr arwydd oedd: BRENIN YR IDDEWON. Cafodd dau leidr eu croeshoelio yr un pryd, un bob ochr iddo. Roedd y bobl oedd yn pasio heibio yn gwneud sbort am ei ben, ac yn hyrddio enllibion ato, "Felly! Ti sy'n mynd i ddinistrio'r deml a'i hadeiladu eto o fewn tri diwrnod? Tyrd yn dy flaen! Achub dy hun oddi ar y groes yna!"

Roedd y prif offeiriaid a'r arbenigwyr yn y Gyfraith yno hefyd yn cael sbort ymhlith ei gilydd. "Roedd e'n achub pobl eraill," medden nhw, "ond dydy e ddim yn gallu achub ei hun! Beth am i ni gael gweld y Meseia yma, Brenin Israel, yn dod i lawr oddi ar y groes. Gwnawn ni gredu wedyn!" Roedd hyd yn oed y rhai oedd wedi'u croeshoelio gydag e'n ei sarhau.

O ganol dydd hyd dri o'r gloch y p'nawn aeth yn hollol dywyll drwy'r wlad i gyd. Yna am dri o'r gloch gwaeddodd Iesu'n uchel, "Eloi! Eloi! L'ma shfachtâni?" sy'n golygu, "Fy Nuw, fy Nuw, pam wyt ti wedi troi dy gefn arna i?"
Pan glywodd rhai o'r bobl oedd yn sefyll yno hyn, "Ust!" medden nhw, "Mae'n galw ar y proffwyd Elias am help." Dyma un ohonyn nhw'n rhedeg ac yn trochi ysbwng mewn gwin sur rhad, a'i godi ar flaen ffon i'w gynnig i Iesu ei yfed. "Gadewch lonydd iddo," meddai, "i ni gael gweld os daw Elias i'w dynnu i lawr."
Ond yna dyma Iesu'n gweiddi'n uchel, yna stopio anadlu a marw. A dyma'r llen oedd yn hongian yn y deml yn rhwygo yn ei hanner o'r top i'r gwaelod.

Roedd capten milwrol Rhufeinig yn sefyll yno wrth y groes. Pan welodd sut buodd Iesu farw, ei eiriau oedd, "Mab Duw oedd y dyn yma, reit siŵr!"

*Marc 15:21-39 Beibl.net*

**Fersiwn syml**

Y diwrnod wedyn, dyma'r milwyr yn gwneud i Iesu gario croes anferthol drwy strydoedd Jerwsalem. Roedd hi mor drwm, wnaethon nhw orfodi dyn o'r enw Simon i'w helpu. Am naw o'r gloch y bore daethon nhw i le o'r enw Golgotha (sydd yn golygu 'Lle y Benglog') a dyma nhw'n croeshoelio Iesu yno - dyma nhw'n ei hoelio ar y groes a'i adael yno i farw.

Roedd arwydd ar y groes yn dweud 'Brenin yr Iddewon'. Wnaethon nhw groeshoelio dau leidr hefyd, un bob ochr i Iesu. Roedd y bobl oedd yn pasio yn gwneud hwyl am ben Iesu ac yn dweud pethau cas amdano. Am ddeuddeg o'r gloch yn y prynhawn aeth yr awyr yn ddu i gyd am dair awr. Gwaeddodd Iesu ar Dduw. Yna am dri o'r gloch, bu farw Iesu.
A rhwygodd llen y Deml yn ein hanner o'r top i'r gwaelod. Pan welodd capten y milwyr Rhufeinig sut buodd Iesu farw, dwedodd o, 'Mab Duw oedd hwn, reit siŵr!'

# Cwestiynau i'w Trafod

Ar ôl darllen y storiau, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn:

**Swper Olaf**

1. Os y buaswn i'n cael swper arbennig, pwy faswn i yn ei wahodd?
2. Pryd ydw i'n cael bwyd arbennig gyda fy nheulu neu fy ffrindiau?
3. Pam oedd Iesu eisiau cael swper arbennig gyda'i ffrindiau?
4. Beth ydw i wedi ei ddysgu am Iesu o'r hanes hwn?

**Y Groes**

1. Os y buaswn i'n  un o ffrindiau Iesu, beth faswn i wedi ei wneud pan gafodd Iesu ei ddal?
2. Ydw i wedi siomi ffrind rhyw dro? Beth sy'n gwneud ffrind da?
3. Pam na fuasai Iesu wedi dianc, ymladd neu alw ar angylion i'w achub?
4. Sut oedd Iesu'n gallu maddau i'r bobl am fod mor gas tuag ato?

# Sialens

Gwna boster o dri pheth rwyt ti'n ddiolchgar amdanynt.
Os wyt ti eisiau rho dy boster yn y ffenest neu ar wal i atgoffa dy hun bob dydd i ddweud 'diolch Dduw' bob amser.  "Diolch Dduw am …."







# Dolenni



Sgetsh a myfyrdod  https://youtu.be/iqOzTb__huM

Fideo o'r gân ar ddiwedd y pecyn   https://www.youtube.com/watch?v=2KZ95fNcPBU&t=23s

Gwybodaeth am app Arwyr Ancora - app gêm sydd ar gael am ddim     https://arwyrancora.com/

Comic y Pasg  https://issuu.com/ysgolsul/docs/comic_pasg_-_heb

Teyrnas y Teulu - syniadau/gemau    https://youtu.be/Pxy_pE5nzVY

# Stori Sydyn

**i'w darllen a'i lliwio**

Gallwch ddarllen yr hanes hwn yn y Beibl yn Luc 22:1-13, Mathew 26:14-19, Marc 14:10-16

# Hanes o'r Beibl

Ychydig cyn y Pasg, pan fydd yr Iddewon yn arfer dathlu Duw yn eu hachub o'r Aifft, roedd Iesu a'i ddisgyblion yn Jerwsalem…




*'Wedi'i addasu a'i ddarlunio gan Francesca Ross' (wedi'i ddefnyddio gyda chaniatâd)*

# Lliwio




Tra oedden nhw'n bwyta
dyma Iesu'n cymryd torth,
ac yna, ar ôl adrodd y weddi
o ddiolch, ei thorri a'i rhannu
i'w ddisgyblion.
"Cymerwch y bara yma"
meddai, "Dyma fy nghorff i."

# Chwilair

DISGYBLION

BRADYCHU

BWYTA

CWPAN

COFIO

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| R | G | W | L | E | DD | D | E | F | Y | M | H |
| F | H | O | J | W | N | E | N | C | R | O | U |
| J | B | I | L | E | W | A | DD | B | U | Y | P |
| G | Y | F | U | CH | U | R | P | S | R | R | Y |
| Y | B | O | A | D | U | T | E | W | F | O | CH |
| FF | L | C | A | T | CH | I | D | R | C | C | E |
| P | R | W | O | P | Y | W | R | B | J | N | N |
| N | G | L | S | A | D | W | J | R | M | H | N |
| A | I | B | A | R | A | R | B | U | O | D | T |
| NG | S | W | P | E | R | C | M | FF | J | T | S |
| D | I | S | G | Y | B | L | I | O | N | TH | D |
| L | K | W | CH | T | E | L | L | R | W | Y | J |

GWIN

GWLEDD

JWDAS

IESU

SWPER

PEDR

TORRI

BARA


TRAED

YFED


GWADU

# Posau

Defnyddia'r grid i dy helpu di i gopïo'r llun.



Wnei di helpu'r 2 ddisgybl i gyrraedd y dyn sy'n cario piser ar ei ben?




# Sialens

Beth am ddefnyddio Lego i wneud model o'r storiau wythnos hwn?



# Crefft

## Y Swper Olaf




**Byddwch angen:**
- Caead bocs esgidiau neu focs grawnfwyd
- 2 daflen wen A4
- Pensil
- Pensiliau lliw
- Siswrn
- Tâp selo
- Glud






1.I wneud y bwrdd lapiwch gaead y bocs esgidiau neu'r bocs grawnfwyd â phapur brown a'i sticio â thâp



2. Gwnewch lun torth o fara, gwydryn o win ac 13 o blatiau (ar gyfer Iesu a'i 12 disgybl) ar y bwrdd.



3.Cymrwch un daflen o'r papur A4 a'i blygu yn ei hyd.



4. Agorwch y papur a thorri ar hyd y plyg.




5. Cymrwch y daflen A4 arall a gwneud yr un peth.Yna bydd gennych 4 darn o bapur.



6. Cymrwch un o'r darnau papur a'i blygu'n hanner.



7. Plygwch y papur yn ei hanner eto.




8. Agorwch y papur allan i'w faint llawn ac yna'i blygu'n siâp igam ogam.




9. Gwnewch lun o ddyn yn union fel sydd yn y llun hwn.



10. Torrwch o gwmpas y llun ac agor y papur allan. Fe fydd gennych 4 dyn bach yn sownd yn ei gilydd!



11.Dilynwch gyfarwyddiadau 6 – 10 eto gyda'r 3 darn papur arall .



12.Lliwich Iesu a'i ddisgyblion ar y ddwy ochr.



13. Gludwch Iesu a'i ddisgyblion o gwmpas y bwrdd.

# Crefft

## Creu Gardd Y Pasg

**Byddwch angen**

- hambwrdd neu bowlen fawr
- pridd
- 1 garreg fawr
- 6 darn o bren neu frigau
- gwlân neu linyn
- pot planhigyn bychan
- cerrig bach
- mwsogl neu hadau glaswellt
- 1 darn o glwtyn gwyn
- siswrn





1.Gosodwch y pot planhigyn ar ei ochr ar yr hambwrdd( hwn fydd y bedd) a gorchuddiwch hanner yr hambwrdd ( yn ogystal â gorchuddio ochr y pot planhigyn) â phridd.



2. Ar ochr arall yr hambwrdd, gosodwch y cerrig bach.



3. Os fyddwch chi'n gwneud eich gardd cyn y Pasg gallech blannu'r hadau  glaswellt yn y pridd a'u gweld yn tyfu. Os nad oes gennych fawr o amser chwiliwch am fwsogl sy'n tyfu ar waliau, a gorchuddiwch y pot planhigyn a'r pridd gyda'r mwsogl.



4.Plygwch y darn o glwtyn gwyn a'i osod yn y bedd.



5.Gosodwch y garreg fawr o flaen y fynedfa i'r bedd.








6.Defnyddiwch y ffyn i wneud tair croes. Defnyddiwch linyn neu wlân i'w rhoi at ei gilydd.



7.Gosodwch y croesau ar ben y 'bryn.' Os oes gennych un groes yn fwy na'r llall gosodwch hi yn y canol rhwng y ddwy groes llai, i gynrychioli'r groes y bu Iesu farw arni.

# Rysáit



## Bara croyw

**Gweddi:** Dduw Dad rydyn ni'n dod o dy flaen di nawr i ddiolch i ti am y bara, y bara sy'n ein helpu ni i gofio fod Iesu wedi marw drosom ni. Diolch i ti am y gwin sy'n ein hatgoffa ni am waed Iesu gafodd ei dywallt fel ein bod ni yn cael maddeuant o'n holl bechodau, yr holl bethau drwg rydyn ni wedi'u gwneud. Rydyn ni'n dweud sori ac yn gofyn i ti faddau i ni yn enw Iesu Grist. Amen.



**Cynhwysion**
7 owns o flawd codi
¼ llwy de o halen
Dŵr
2 lwy fwrdd o olew ( olewydd,blodyn haul neu olew llysieuol)

**Cyfarpar**
Powlen fawr, Llwy de, Llwy fwrdd, Rholbren, Hambwrdd pobi

1.Rhowch y blawd a'r halen mewn powlen fawr a diferu ychydig o ddŵr ar y cynhwysion bob yn dipyn.

2.Cymysgwch y cyfan â'i gilydd.

3.Ychwanegwch yr halen a thylinwch y gymysgedd yn does meddal. Os ydy'r gymysgedd yn rhy ludiog ychwanegwch ychydig o flawd neu os ydy o'n rhy sych ychwanegwch ychydig o ddŵr.

4.Tylinwch y toes am 5 munud – gwnewch hyn yn y bowlen neu ar arwynebedd glân gan ddefnyddio un neu ddwy law.

5.Fe allech chi goginio'r toes yn syth neu gallwch ei adael am 30 munud.

6.Rhannwch y toes yn 4 pelen.

7.Ysgeintiwch ychydig o flawd ar arwynebedd glân fel nad yw'r toes yn sticio ynddo wrth i chi ei rowlio. Rhowliwch pob pelen o does fesul un gan ddefnyddio rholbren. Os codwch y toes a'i symud o gwmpas bob hyn a hyn byddwch yn gwybod nad ydyw wedi sticio i'r arwynebedd. Peidiwch â phoeni os nad ydynt yn gylchoedd perffaith. Does dim rhaid i chi ddefnyddio rholbren. Fe allech chi ddefnyddio eich dwylo i'w ffurfio ac yna'u gwneud yn wastad.

8.Cynheswch y popty, gwres 170 neu Farc 4 nwy.

9. Rhowch y toes wedi'i rhowlio ar hambwrdd pobi.

10.Coginiwch ar y gwres isel am tua 30 munud nes eu bod yn frown euraid ac wedi codi ychydig.

## Amdanom ni



An English version is also available

Paratowyd y pecyn hwn gan:
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Jennifer Roberts, Nia Williams,
Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Cass Meurig, Rhiannon Hughes, Kathryn Williams, Francesca Ross, Rhys Hughes, Rachel Hughes, Greg Leavers & Delyth Dempsey.

**Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd.** Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org

# Gweddi Greadigol

## “Sori”

Hyd yn oed pan oedd Iesu ar y groes a phobl yn bod yn gas iawn hefo fo, roedd Iesu yn maddau iddyn nhw. Pan fyddwn ni yn dweud ‘sori’ wrth Iesu mae Iesu yn maddau i ni hefyd am ei fod yn ein caru ni.

Dyma mae’r Beibl yn ei ddweud wrthyn ni y bydd Iesu yn ei wneud:

> “Ond os gwnawn ni gyffesu ein pechodau, bydd e'n maddau i ni am ein pechodau ac yn ein glanhau ni oddi wrth bopeth drwg, am ei fod e'n cadw ei air ac yn gwneud beth sy'n iawn.”
>
> 1 Ioan 1 adnod 9

*‘Pechodau’ ydi’r gair mae’r Beibl yn ei ddefnydio am y ‘pethau drwg’ rydyn ni yn eu gwneud, neu eu dweud neu eu meddwl.*



**Byddi angen:**

- Tywod neu halen neu ‘Etch a sketch’
- Tun neu blât i ddal y tywod neu’r halen

**Beth i’w wneud:**

- Meddylia am rhywbeth wyt ti wedi’i wneud, ei ddweud neu ei feddwl sy’n anghywir neu’n ddrwg.
- Pan wyt ti wedi meddwl, sgwenna ‘sori’ yn y tywod neu’r halen, neu ar yr ‘Etch a sketch’.
- Gelli di ddweud ‘sori’ wrth Dduw wrth i ti sgwennu.
- Cofia fod Iesu wedi mynd i’r groes i faddau i ni.
- Chwala’r gair.

Fel mae’r gair wedi mynd, mae Iesu’n maddau i ni.

---

## “Plîs Dduw”

**Byddi angen:**

- Papur
- Pensiliau lliw neu binnau ffelt

Mae’n anodd ar hyn o bryd am nad ydyn ni’n cael gweld pawb o’n teulu na’n ffrindiau.

**Ond mae Duw yn gallu bod gyda phawb.**




- Gwna siâp calon a ysgrifenna enw aelod o dy deulu neu ffrindiu nad wyt ti yn cael eu gweld yng nghanol y galon.
- Wrth i ti sgwennu yr enw, diolcha i Dduw amdano/i a gofyn i Dduw fod yn agos ato/i.
- Gwna batrwm lliwgar o gwmpas yr enw i lenwi’r galon.

Beth am dynnu llun o dy galon a’i anfon i’r person wyt ti wedi meddwl amdano/i.



# Gemau

## Gêm Ble Mae'r Bara?



Bydd angen: amserydd, darn o fara neu rôl.

**Fersiwn 1**
Bydd angen tua 5 neu fwy i chwarae'r fersiwn hwn o'r gêm.

- Mae Person A yn gorfod mynd allan o'r ystafell.
- Mae pawb arall yn eistedd neu'n sefyll mewn cylch â'u dwylo tu ôl i'w cefnau.
- Mae Person B yn rhoi'r darn o fara yn nwylo un o'r bobl sy'n ffurfio'r cylch.
- Wedi i'r bara gael ei roi yn nwylo unigolyn mae angen galw ar Berson A aeth allan o'r ystafell i ddod nôl mewn a sefyll yng nghanol y cylch.
- Mae ganddo/ganddi 30 eiliad i ddyfalu gan bwy mae'r bara.
- Os yw Person A yn dyfalu'n gywir o fewn yr amser penodedig bydd yn ennill pwynt ac yn ymuno â'r cylch.
- Os nad yw Person A yn dyfalu'n gywir ni fydd yn sgorio pwynt ond fe fydd yn ymuno â'r cylch. Bydd y person oedd yn dal y bara yn mynd allan o'r ystafell a'r gêm yn ail gychwyn.
- Caiff person B ofalu am y sgôr yn ogystal â bod yn gyfrifol am roi'r bara yn nwylo unigolyn yn y cylch ymhob rownd.


**Fersiwn 2** (llai o bobl)
Bydd un person yn cuddio'r bara a'r person arall/personau eraill yn chwilio am y darn bara.
Yr enillydd yw'r un sy'n dod o hyd i'r bara yn gyntaf.

---

## Helfa sborion

Chwilia o gwmpas y tŷ am y pethau yn y rhestr.
Faint o amser wnest ti ei gymryd i'w casglu?
Efallai y buaset yn gallu cael ras yn erbyn o aelodau dy deulu.

1. hosan
2. tywel
3. cwpan
4. darn o fara
5. darnau o arian
6. deilen
7. llun ceiliog
8. clustog
9. dîs
10. coron
11. croes (neu rywbeth i wneud siâp croes),
12. cloc neu oriawr



Darllena'r stori unwaith eto.
Sut wyt ti'n meddwl mae'r pethau rwyt ti wedi'u casglu yn rhan o'r hanes?

***Cofia gadw'r pethau'n ôl lle'r oedden nhw!***



# Gemau



## Gêm dysgu adnod


“Ond os gwnawn ni gyffesu ein pechodau, bydd e'n maddau i ni am ein pechodau ac yn ein glanhau ni oddi wrth bopeth drwg, am ei fod e'n cadw ei air ac yn gwneud beth sy'n iawn.”

*1 Ioan 1 adnod 9*

(‘pechodau’ ydi’r gair mae’r Beibl yn ei ddefnyddio am y pethau drwg rydan ni yn eu gwneud)

**Byddi angen:**
11 darn o bapur sgrap (sgwenna ar ei gefn), pin ffelt, tâp selo, carreg fach
Neu darn o sialc a lle tu allan i wneud y sgwariau ‘Hopscotch’, carreg fach

**Paratoi:**
Sgwenna’r adnod ar y darnau papur a’u gosod fel yn y llun.
Defnyddia’r tâp selo i ludo’r papur yn y llawr rhag ofn i ti lithro.




**Sut i chwarae:**

- Tafla’r garreg i sgwâr rhif 1.
- Hopia ar un goes i sefyll ar sgwâr 1 a dyweda’r geiriau sydd ar y sgwâr.
- Dos yn ôl i’r dechrau a thafla’r garreg i’r rhif nesa.
- Hopia ar sgwâr 1 i gyrraedd sgwâr 2.
- Dyweda’r geiriau ar sgwâr 1 a 2.
- Dos yn ôl i’r dechrau a gwna’r un fath gan hopian ar sgwâr 1 a 2 i gyrraedd sgwâr 3.
- Dyweda’r geiriau sydd ar sgwariau 1,2, a 3.
- Dal i fynd fel hyn nes wyt ti wedi cyrraedd i’r pen (sgwâr 11) ac wedi dweud yr adnod i gyd.

Os wyt ti’n chwarae hefo rhywun arall, pan wyt ti’n methu cael y garreg i’r sgwâr ar y tafliad cyntaf, mae’r person nesa’ yn cael tro.



# Gemau

## Gêm gofio



Byddi angen:

- 10 o bethau (neu fwy ar gyfer plant hŷn)
- Lliain sychu llestri neu orchudd arall i'w cuddio
- Rhywbeth i amseru, fel oriawr neu ffôn
- Papur a phensil

Sut i chwarae'r gêm:

1. Rho 10 o bethau ar fwrdd, neu gofynna i rhywun arall eu rhoi ar y bwrdd heb i ti eu gweld.
2. Edrycha arnyn nhw am 10 eiliad.
3. Cuddia nhw gyda lliain sychu llestri.
4. Ceisia gofio gymaint o'r pethau ag sy'n bosibl mewn munud – dyweda beth ydyn nhw neu sgwenna nhw i lawr.

Cynnig eto ...
Gofyn i rhywun dynnu un peth oddi ar y bwrdd heb i ti ei weld.
Tynna'r lliain sychu llestri a cheisia gofio beth sydd ar goll.

Beth am gael cystadleuaeth yn erbyn aelodau o dy deulu – pwy sy'n gallu cofio orau?

Cofio
Pan gafodd Iesu'r swper olaf gyda'i ddisgyblion, dangosodd ffordd arbennig iddyn nhw gofio amdano. Wyt ti'n cofio beth oedden nhw i fod i'w wneud?

# Canu



Iesu (Iesu)
Iesu (Iesu)
Ceidwad (Ceidwad)
A ffrind.

Mae'r groes yn fy atgoffa
Mor ddwfn dy gariad ataf
Dwyt byth yn gollwng llaw
Dwyt byth yn gollwng llaw

*Hawlfraint 1997 Greg Leavers  Cyf. Dafydd Timothy*

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://www.youtube.com/watch?v=2KZ95fNcPBU&t=23s

Canu

# Iesu, Iesu, Ceidwad a Ffrind

Greg Leavers
Cyf. Dafydd Timothy




Hawlfraint 1997 Greg Leavers Cyf. Dafydd Timothy